**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**CYFARFOD: 26ain Ionawr 2005**
**Eitem: 2**

# DEDDF CYNLLUNIO TREF A GWLAD 1990
# CYNLLUNIO TREF A GWLAD (DATBLYGIAD CYFFREDINOL) GORCHYMYN 1995 - HYD HEDDIW
# DEDDF CYNLLUNIO A IAWNDAL 1991
# RHEOLIAD HYSBYSEBU CYNLLUNIO TREF A GWLAD 1994
# DEDDF CYNLLUNIO (ADEILADAU RHESTREDIG A CHADWRAETH) 1990
# CEISIADAU AM GANIATAD DATBLYGU

Adroddiadau ac argymhellion gan Swyddogion i'w hystyried a'u datrys gan Awdurdod Cynllunio'r Sir.

Bydd pob cais am y cynigion a nodir yn yr adroddiad hwn ar gael i'w archwilio gan Aelodau o'r Pwyllgor cyn ac yn ystod y cyfarfod lle ystyrir y ceisiadau.

Gellir gweld y Papurau Cefndir i bob cais, gan gynnwys ffurflenni, cynlluniau, gohebiaeth, Cynllun Datblygiad a dogfennau arweiniad yn ystod yr oriau swyddfa arferol.

**Nid yw'r atodiad y cyfeiriwyd ato yn yr adroddiad ar gael yn Gymraeg ac mae hynny yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg y Cyngor**

**DENBIGHSHIRE COUNTY COUNCIL**
**PLANNING COMMITTEE**
**INDEX TO REPORT**


| Item No | Application No | Location and Proposal | Page No |
|---|---|---|---|
| 1 | 06/2004/0278/PF | **Wern Ddu . Gwyddelwern Corwen**<br>Construction and operation of five 1.3Mw windturbine generators (49m tower, 62m rotor diameter, tip height 80m above ground level), 50m lattice tower meteorological mast, switch room facility, access tracks and temporary construction compound, for purposes of generating renewable energy and improvement to existing highway access | 1 |
| 2 | 01/2004/0717/PF | **Land Adjoining The Railway Inn Car Park Ruthin Road Denbigh**<br>Erection of 6 no. dwellings and associated works | 42 |
| 3 | 01/2004/1465/PS | **Lleweni Mold Road Denbigh**<br>Amendments to condition 11 imposed on planning permissions for (a) conversion of outbuildings to 11 residential units (former Carriage Yard, Lleweni, Denbigh) - application code no. 01/2001/0603/PF (b) conversion of outbuildings to 5 residential units (former Barns and Stables, Lleweni, Denbigh) - application code no. 01/2000/0993/PF, to allow for the introduction of advanced 'access prohibited' signs and realignment of driveways onto access track, to restrict use of track past Maes y Parc to Mold Road by construction vehicles and residents vehicles | 47 |
| 4 | 01/2004/1531/PF | **1 Smithfield Road Denbigh**<br>Erection of single-storey pitched-roof extension at rear of dwellinghouse | 54 |
| 5 | 02/2004/1403/PF | **18 Min Yr Afon Ruthin**<br>Erection of single-storey pitched-roof extension at side of dwellinghouse | 56 |
| 6 | 02/2004/1444/PF | **99 Erw Goch Ruthin**<br>Demolition of existing garage and erection of pitched-roof extension at side of dwellinghouse | 58 |
| 7 | 02/2004/1509/PS | **Land Adjacent To Oaklea Bryn Goodman Ruthin**<br>Variation of condition no. 7 of planning permission code no. 02/2004/0001/PF to allow for the lopping and topping of 1 no. tree. | 61 |
| 8 | 03/2004/0720/PO | **Bryn Derwen Abbey Road Llangollen**<br>Demolition of existing hotel and dwelling and redevelopment of land by the erection of 20 residential apartments and alterations to existing vehicular access (outline application) | 63 |
| 9 | 07/2004/0737/PF | **Land to the rear of Pen Rhos Llandrillo Corwen**<br>Erection of 4 no. detached dwellings and construction of new vehicular/pedestrian accesses | 69 |

**DENBIGHSHIRE COUNTY COUNCIL**
**PLANNING COMMITTEE**
**INDEX TO REPORT**


| Item No | Application No | Location and Proposal | Page No |
|---|---|---|---|
| 10 | 07/2004/0805/PF | **Land at Rhos Helyg Llandrillo Corwen** Erection of 9 no. dwellings and construction of new vehicular and pedestrian access | 73 |
| 11 | 10/2004/1279/PO | **Land adjacent to Tyn-y-Bedw Bryneglwys Corwen** Development of 0.68 hectares of land for residential development and construction of new vehicular access (outline application) | 78 |
| 12 | 11/2004/1267/PF | **Maestyddyn Isa Clawddnewydd Ruthin** Erection of steel portal-framed livestock shed and slurry lagoon | 82 |
| 13 | 14/2004/0645/PF | **Land Adjacent to St. Marys Church Cyffylliog Ruthin** Erection of three bungalows, construction of vehicular access and installation of new septic tanks | 85 |
| 14 | 15/2004/0834/PO | **Bryn Difyr Llanferres Mold** Erection of cattery buildings with office/reception area, provision of parking and new driveway to incorporate change of use of existing agricultural building for dog kennels (outline application) | 89 |
| 15 | 16/2004/1450/PF | **Llanbedr Hall Hotel Llanbedr Hall Llanbedr Dyffryn Clwyd Ruthin** Change of use from restaurant to 2 No. 2-bedroom self-contained dwellings | 95 |
| 16 | 18/2004/1016/PF | **Land Adjacent To Tyn Llan Farm Llandyrnog Denbigh** Demolition of outbuildings and erection of dwelling (Plot 4), erection of garage (Plot 3) and alterations to existing vehicular and pedestrian accesses | 98 |
| 17 | 18/2004/1017/PF | **Land Adjacent To Tyn Llan Farm Llandyrnog Denbigh** Demolition of existing farmhouse and erection of 2 no. dwellings (Plots 16 + 17) | 102 |
| 18 | 18/2004/1365/PR | **Land Adjoining Tyn Llan Farm Llandyrnog Denbigh** Details of siting, design and external appearance of buildings, the means of access and landscaping for the erection of 11 dwellings (in accordance with Condition 1 of outline planning permission 18/2003/1050/PO) (Plots 5-15 inc.) | 107 |
| 19 | 18/2004/1440/PF | **Land Adjacent To Tyn Llan Farm Llandyrnog Denbigh** Erection of 3 no. dwellings (Plots 1-3) | 111 |
| 20 | 30/2004/0232/PF | **Land at Tyddyn Ceirw Henllan Road Trefnant Denbigh** Change of use of land to form commercial livery and erection of stable block/tack room and indoor riding arena. | 116 |

**DENBIGHSHIRE COUNTY COUNCIL**
**PLANNING COMMITTEE**
**INDEX TO REPORT**


| Item No | Application No | Location and Proposal | Page No |
|---|---|---|---|
| 21 | 30/2004/1570/PR | **Land at (Part garden of) Cheenaville Allt Goch St. Asaph** Details of dwelling and construction of new vehicular access in accordance with condition no. 1 of outline planning permission ref : 30/2004/0536/PO | 121 |
| 22 | 41/2004/0415/PO | **Land at rear of Dinorben Arms . Bodfari Denbigh** Development of 0.49 hectares of land by erection of 10 no. dwellings and alterations to existing vehicular access (outline application) | 124 |
| 23 | 43/2004/0973/PF | **74 Gronant Road Prestatyn** Erection of 7 No. dwellings and garages and construction of new vehicular access with new roadway | 130 |
| 24 | 43/2004/1433/PC | **Tan Yr Allt Cottage Tan Yr Allt Prestatyn** Retention of garden shed (retrospective application) | 135 |
| 25 | 43/2004/1511/LB | **Llys Farm Meliden Road Prestatyn** Demolition (in retrospect) of former outbuilding within the curtilage of a Listed Building (Listed Building application) | 138 |
| 26 | 43/2004/0317/PF | **Llys Farm Meliden Road Prestatyn** Erection of 6 mews cottages and garage block and installation of new septic tank | 142 |
| 27 | 43/2004/1525/PF | **113 Meliden Road Prestatyn** Demolition of existing garage and erection of two-storey pitched-roof extension at front/side of dwellinghouse | 147 |
| 28 | 44/2004/1390/PF | **Caradoc Villa Abergele Road Rhuddlan Rhyl** Erection of flat-roofed extension at side of dwelling and conservatory at rear | 150 |
| 29 | 44/2004/1491/PC | **Field Adjacent to Tirionfa Meliden Road Rhuddlan Rhyl** Change of use of field for the temporary storage of topsoil in connection with building works on adjacent Tir Morfa site (retrospective application) | 152 |
| 30 | 45/2004/1272/PF | **Morville Hotel 25-26 East Parade Rhyl** Proposed extension and refurbishment of existing hotel to accommodate additional bedrooms, swimming pool, health fitness and beauty salon, conference facilities, children's adventure play facility, night club and chip shop | 155 |
| 31 | 45/2004/1457/PR | **Land Adjacent To 14 Plas Road Rhyl** Details of siting, design, external appearance of 2 dwellings and landscaping submitted in accordance with condition 1 of planning permission code no. 45/2003/1447/PO | 160 |

**DENBIGHSHIRE COUNTY COUNCIL**
**PLANNING COMMITTEE**
**INDEX TO REPORT**


| Item No | Application No | Location and Proposal | Page No |
|---|---|---|---|
| 32 | 45/2004/1495/PF | **3 Bodfor Street Rhyl**<br>Change of use from Class A1 retail to use as a centre for computer-based examinations and tests to members of the public (sui generis) | 163 |
| 33 | 45/2004/1520/PF | **12 Diane Drive Rhyl**<br>Erection of extension and conservatory to side of dwelling, new entrance porch to front and re-positioning of existing pedestrian access, and screenwall/fence to side and rear boundaries | 165 |
| 34 | 45/2004/1537/PF | **Christchurch Integrated Centre Christchurch School Ffordd Las Rhyl**<br>Construction of outdoor play enclosure | 167 |
| 35 | 46/2004/1432/PF | **Part of St. Asaph Common, rear of The Roe St. Asaph**<br>Continuation of use of land for temporary car park , provision of hardcore footpath and 2m height-restriction barrier and provision of additional landscaping to screen the site | 169 |
| 36 | 47/2004/1364/PF | **Tan Yr Onnen Waen St. Asaph**<br>Conversion and extension of existing outbuildings and existing dwelling to form holiday accommodation and erection of 3 log cabins for holiday accommodation | 173 |

**CYFARFOD Y PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**26 Ionawr 2005**

**EITEM AGENDA 3**

**ADRODDIAD GAN Y PENNAETH GWASANAETHAU CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD**

**DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990**
**RHEOLIADAU CYNLLUNIO GWLAD A THREF (COED) 1999**
**CYNGOR SIR DDINBYCH**
**TIR WRTH YMYL CERDDIN,**
**STRYD Y BERWYN, LLANDRILLO, GER CORWEN**

**GORCHYMYN CADW COED RHIF 2/2004**

## 1. DIBEN YR ADRODDIAD

1.1 Cyflwyno adroddiad ar gyflwyno Gorchymyn Cadwraeth Coed a phenderfynu a ddylid ei gadarnhau heb ei newid.

## 2. CEFNDIR

2.1 Mae'r ardd yn cynnwys nifer o goed â gwerth amwynder lleol. Cyflwynwyd Gorchymyn Cadwraeth Coed Brys yn dilyn cryn wrthwynebiad lleol i dorri coed a ddigwyddodd cyn penderfynu ar gais cynllunio am 2 annedd gyda garej ar wahân.

2.2 Y cyfiawnhad dros wneud y Gorchymyn yw bod gwerth amwynder i'r coed ac fe'u hystyrir yn agored i niwed yn awr yn dilyn cymeradwyo datblygu'r safle.

## 3. GWRTHWYNEBIADAU

3.1 Anfonwyd llythyr o wrthwynebiad gan yr ymgeisydd, Gwyn Roberts a'i Gwmni, ar y sail mai addurniadol yw'r coed ac nid rhai cynhenid ac y bydd yn ofynnol tocio'r coed i wella'r gwelededd wrth y ffordd fynedfa ac am resymau diogelwch.

## 4. CASGLIAD

4.1 Mae'r Gorchymyn Cadw Coed yn ofynnol i ddiogelu'r coed oherwydd eu gwerth amwynder. Gall y perchennog gyflwyno cais i'r Cyngor am ganiatâd i gyflawni'r gwaith sy'n angenrheidiol ar y coed.

## 5. ARGYMHELLIAD

5.1 Cadarnhau Gorchymyn Cadwraeth Coed Rhif 2/2004 ar dir wrth ymyl Cerddin, Stryd y Berwyn, Llandrillo, heb ei newid.

**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**26 Ionawr 2005**
**EITEM AGENDA RHIF 4**

## ADRODDIAD GAN Y PENNAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD

## DYDDIAD YMWELIADAU SAFLE

### 1. DIBEN YR ADRODDIAD

**1.1** Cynghori'r Aelodau am ddyddiad tebygol unrhyw Ymweliadau Safle y gofynnir amdanynt gan y Pwyllgor Cynllunio.

### 2. DYDDIAD YR YMWELIADAU SAFLE

**2.1** Mewn ymgynghoriad ag Adran Clerc y Sir, penderfynwyd mai bore Gwener, 4 Chwefror 2005, yw'r dyddiad mwyaf addas. Gwnaed trefniadau darpariaethol ar gyfer y dyddiad hwn.

**2.2** Felly fe'ch cynghorir y bydd unrhyw ymweliadau safle a drefnir heddiw yn cael eu cynnal **ddydd Gwener, 4 Chwefror 2005.**

### 3. AELODAETH Y PANEL YMWELIADAU SAFLE

**3.1** Bydd aelodaeth y panel yn unol â Chydbwysedd Gwleidyddol.
Aelodaeth y Panel fydd:
Tri chynrychiolydd o'r Grŵp Annibynnol (yn cynnwys y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd) ac un yr un o'r Grwpiau Llafur, Ceidwadwyr, Plaid Cymru, Cynghrair Democrataidd Cymru a Democratiaid Rhyddfrydol.
Gwahoddir yr Aelod(au) Lleol ar gyfer bob safle i fynychu'r ymweliad hefyd.

### 4. ARGYMHELLIAD

**4.1 Bod yr Aelodau'n cytuno i gynnal yr Ymweliadau Safle ddydd Gwener, 4 Chwefror 2005.**

**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**26 IONAWR 2005**
**EITEM RHIF 5**

**ADRODDIAD GAN Y PENNAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD**

# EITEMAU ER GWYBODAETH I'R PWYLLGOR CYNLLUNIO
## Hyfforddiant i Aelodau
## Porth Rhyngrwyd i'r Cyhoedd
## Cymorthfeydd Cynllunio
## Gwrychoedd Uchel

## 1. DIBEN YR ADRODDIAD

1.1 Dyma'r eitem sefydlog ar agenda'r Pwyllgor Cynllunio sy'n darparu man cyfeiriol i Aelodau gael gwybodaeth am fentrau, polisïau, canllawiau a chyhoeddiadau newydd ac ar y gweill.

1.2 Cyfyngir y wybodaeth a ddarperir i'r Aelodau i ddisgrifiad cryno o'r fenter berthnasol a chyfeiriad at ffynhonnell unrhyw wybodaeth (cyfeiriad rhyngrwyd/mewnrwyd). Bydd yr adroddiad hefyd yn cynnwys crynodeb o unrhyw oblygiadau sylweddol i wneud penderfyniadau yn y Pwyllgor Cynllunio, lle bo'n berthnasol.

## 2. HYFFORDDIANT I AELODAU

2.1 Mae'n bwysig cynnig hyfforddiant i Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio er mwyn sicrhau gwneud penderfyniadau cadarn. Mae Cod Ymarfer Gorau i Gynghorwyr a Swyddogion sy'n ymdrin â Materion Cynllunio yn nodi y bydd hyfforddiant yn cael ei gynnig i Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio yn flynyddol. Fel rhan o'r fenter Cynllunio: Cyflawni yng Nghymru, mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Llywodraeth y Cynulliad wedi trefnu a chyllido hyfforddiant i Aelodau. Cyflwynwyd y modiwl cyntaf ym mis Medi 2004. Dim ond 10 aelod wnaeth fynychu'r sesiwn pan gyflwynwyd y modiwl hwn, er gwaethaf cynnig yr un hyfforddiant ar ddyddiau olynol.

2.2 Trefnwyd rhagor o fodiwlau'r hyfforddiant ar gyfer 14 Rhagfyr 2005. Anogir yr Aelodau i wneud pob ymdrech i fynychu'r hyfforddiant er mwyn cynorthwyo gyda'u datblygiad fel Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio. Ar adeg llunio'r adroddiad hwn dim ond 2 Aelod oedd wedi cofrestru eu henwau. Cynhyrchwyd llawlyfr i gyd-fynd â'r hyfforddiant a ddarparwyd ym Modiwl 1 hefyd (dosberthir copi yn y Pwyllgor Cynllunio). Yn ychwanegol at yr hyfforddiant a ddarperir drwy'r dull hwn, bwriedir ymweld â safleoedd datblygu yn y gwanwyn eleni, yn dilyn llwyddiant y fenter yma ym mis Tachwedd 2003.

2.3 Mewn rhai Cynghorau mae'n arferol gwneud hyfforddiant yn orfodol i Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio. Mae'n bosibl y bydd y mater hwn yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol sy'n ystyried adroddiadau ac argymhellion ar drefniadau llywodraethu'r Cyngor gan y Comisiwn Archwilio yng Nghymru.

## 3. PORTH RHYNGRWYD I'R CYHOEDD

3.1 Cyflawnwyd gwaith yn ddiweddar gyda darparydd meddalwedd prosesu ceisiadau cynllunio, SX3, i alluogi gweld gwybodaeth am geisiadau drwy gyfrwng y wefan. Bydd hyn yn caniatáu i'r cyhoedd wirio'r ceisiadau a gyflwynwyd, ar ba gam yn y broses mae'r cais wedi cyrraedd, cyflwyno sylwadau drwy gyfrwng y we, a chyrchu gwybodaeth arall am faterion cynllunio mewn modd sy'n hawdd i'w ddefnyddio.

3.2 Gall yr Aelodau weld y wybodaeth ar: http://planning.denbighshire.gov.uk/

## 4. CYMORTHFEYDD CYNLLUNIO

4.1 Rydym yn cynnal cyfres o gymorthfeydd cyngor cynllunio fel cynllun peilot yn y Rhyl, Prestatyn, Rhuthun, Llangollen a Chorwen yn ystod yr wythnosau nesaf. Mae manylion am leoliadau ac amseroedd y cymorthfeydd hyn wedi'u hanfon at ein prif gwsmeriaid, yn cynnwys Cynghorwyr, Cynghorau Cymunedau ac asiantau. Anfonwyd posteri i'w harddangos yn y mannau lle cynhelir y cymorthfeydd. Rhyddhawyd datganiad i'r wasg hefyd. Bwriad y cymorthfeydd hyn yw darparu cyngor cynllunio mewn lleoliadau sy'n agos at ein cwsmeriaid. Er mwyn cynorthwyo i gael y mwyaf o'r cymorthfeydd rydym yn gofyn i bobl wneud apwyntiad o flaen llawn, am gyfnod o 15 munud yr un. Byddwn yn parhau i ddarparu gwasanaeth cyngor o Galedfryn yn Ninbych.

4.2 Byddwn yn darparu cyngor ar y materion a ganlyn – a oes angen caniatâd cynllunio, sut i gyflwyno cais cynllunio a'ch siawn o lwyddo i gael caniatâd, a sut i ymwneud â cheisiadau a gyflwynwyd eisoes. Byddwn yn cytuno ar unrhyw gamau gweithredu ar ddiwedd yr apwyntiad.

4.3 Yn dilyn cynnal y rhaglen cymorthfeydd am ddeufis, bydd fformat, amlder a gwerth y cymorthfeydd yn cael ei adolygu, gan ystyried adborth a dderbynnir gan ein cwsmeriaid. Rhagwelir y bydd y cymorthfeydd yn parhau mewn ffurf debyg.

## 5. GWRYCHOEDD UCHEL

5.1 Daeth Rhan 8 o'r Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol i rym ar 31 Rhagfyr 2004. Mae wedi darparu gweithdrefnau newydd i awdurdodau lleol i'w galluogi i ymdrin â chwynion am wrychoedd uchel. Rhaid i'r achwynydd brofi i ni eu bod wedi cymryd pob cam rhesymol i ddatrys y

mater cyn troi at yr Awdurdod. Bydd y Tîm Cydymffurfiaeth Cynllunio yn delio â'r cwynion hyn.

5.2 Rydym wedi pennu ffi interim nas ad-delir o £240 i'w dalu gan yr achwynydd (i'w adolygu maes o law) er mwyn dechrau'r ymchwiliad. Os canfyddir fod y gwyn yn ddilys, cyflwynir hysbysiad adfer i berchennog y gwrych yn datgan beth sydd i'w wneud. Bydd hwn yn dod yn bridiant ar yr eiddo.

5.3 Mae'r Ddeddf yn creu trosedd o fethu â chydymffurfio â hysbysiad adfer, ac os yw'n mynd i'r Llys Ynadon gellir rhoi dirwy o hyd at £1000 i berchennog y gwrych a dirwy ychwanegol o hyd at £50 y diwrnod am bob diwrnod mae'r gwaith yn parhau heb ei wneud. Mae parhau i fethu â chydymffurfio yn golygu y gall yw awdurdod drefnu i'r gwaith sy'n ofynnol gael ei gyflawni (ar gost perchennog y gwrych) a byddai'r costau hyn yn cael eu cofrestru fel pridiant tir lleol ar yr eiddo.

5.4 Ceir copïau o'r rheoliadau a'r dogfennau ymgynghori cysylltiedig gan Lywodraeth y Cynulliad ar wefan y Cynulliad: http://www.cymru.gov.uk/subiplanning.

5.5 Rydym yn cynhyrchu ffurflenni a thaflenni i gynorthwyo'r cyhoedd i ddeall y ddeddfwriaeth ac i gyflwyno cwynion. Gellir cael gafael ar y rhain drwy wefan y Cyngor.

# PENDERFYNIADAU APELIADAU CYNLLUNIO SIR DDINBYCH

## RHESTR PENDERFYNIADAU APÊL O 1 GORFFENNAF 2004 I 31 RHAGFYR 2004

| DISGRIFIAD | LEFEL Y PENDERFYNIAD/ ARGYMHELLIAD | LLEOLIAD | MATH | DYDDIAD Y PENDER-FYNIAD | PENDERFYNIAD YR APÊL | COSTAU | MATERION ALLWEDDOL |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Adeiladu adeilad amaethyddol | Gwrthod – Penderfyniad dirprwyedig | Tir ym Mhen y Waen, Llandyrnog | Sylwadau ysgrifenedig | 13/07/2004 | GWRTHODWYD | - | Adeilad yn rhy agos at eiddo cymydog. Swn a tharfu gormodol. Yn gwrthdaro â Pholisïau GEN 6 a EMP 13 y CDU. |
| Newid defnydd tir i ddarparu 10 caban pren | Gwrthod – Penderfyniad dirprwyedig | Fferm Moelisygoedwig, Llandrillo | Sylwadau ysgrifenedig | 19/07/2004 | GWRTHODWYD | - | Niwed sylweddol i gymeriad ac ymddangosiad Ardal o Harddwch. Yn gwrthdaro â Pholisïau ENV 2, TSM 6, TSM 9 a GEN 6 y CDU. |
| Estyniad i greu ystafelloedd gwely | Gwrthod – Penderfyniad y pwyllgor | Camp Alyn, Tafarn y Gelyn, Llanferres | Sylwadau ysgrifenedig | 20/07/2004 | GWRTHODWYD | - | Ni fyddai'r estyniad yn gydnaws â chymeriad yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol a byddai'n tra-arglwyddiaethu. Yn gwrthdaro â Pholisïau ENV 2 a GEN 6 y CDU. |
| Newid defnydd llawr gwaelod ar y cyd o ddefnydd preswyl i swyddfa Dosbarth B1 ac adeiladu estyniad swydd yn y tu ôl | Gwrthod - Penderfyniad dirprwyedig | 36 Stryd yr Eglwys, Y Rhyl Church Street, Rhyl | Gwrandawiad | 04/08/2004 | GWRTHODWYD | - | Cynnydd yn y tarfu a cholli preifatrwydd – niwed i amodau byw cymydog. Yn gwrthdaro â Pholisïau EMP 6 a GEN 6 y CDU. |
| Adeiladu annedd ac addasiadau i'r ffordd fynediad bresennol i gerbydau | Gwrthod - Penderfyniad dirprwyedig | Treetops, Ffordd Rhuthun, Loggerheads | Sylwadau ysgrifenedig | 05/05/2004 | GWRTHODWYD | - | Nid yw'r safle yn fwlch cyfyngedig mewn clwstwr cydlynus o anheddau. Felly'n gwrthdaro â Pholisi HSG 5 y CDU. Effaith andwyol ar yr AOHNE felly'n gwrthdaro â Pholisi ENV 2. |
| Caniatâd Hysbyseb am arwydd blwch yn y tu ôl | Gwrthod - Penderfyniad dirprwyedig | 4 Ffordd Bastion, Prestatyn | Sylwadau ysgrifenedig | 22/06/2004 | GWRTHODWYD | - | Byddai'r arwydd ar y cefn wedi bod ar godiad ac mewn lleoliad anhylaw. |
| Datblygu 0.086 hectar o dir drwy adeiladu byngalo sengl ac addasiadau i'r ffordd fynediad bresennol i gerbydau | Gwrthod - Penderfyniad dirprwyedig | 79 Ffordd Dyserth, Y Rhyl | Sylwadau ysgrifenedig | 27/10/2004 | GWRTHODWYD | - | Byddai'r arwain at wneud i'r safle edrych yn gyfyng ac yn cael effaith andwyol ar amodau byw y prif eiddo. Yn gwrthdaro â Pholisi GEN 6 y CDU a'r Canllawiau Cynllunio Atodol. |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Adeiladu byngalo sengl i unigolyn wedi'i gofrestru'n anabl | Gwrthod - Penderfyniad dirprwyedig | 4 Galltfaenan Cottages, Galltfaenan Hall, Trefnant | Sylwadau ysgrifenedig | 26/10/2004 | GWRTHODWYD | - | Effaith andwyol ar amwynderau annedd sy'n bodoli eisoes. Annedd newydd yng nghefn gwlad. |
| Gosod 10 carafan sefydlog ychwanegol ar ffin gorllewinol cae 2 ac 1 carafan ychwanegol ar ffin ddwyreiniol cae 2 | Gwrthod - Penderfyniad y pwyllgor | Eryrys Caravan Park, Bryn Awelon, Eryrys | Gwrandawiad | 23/12/2004 | GWRTHODWYD | - | Nid yw'n estyniad cymhedrol. Effaith andwyol ar gefn gwlad, yn cynnwys AHONE. Yn gwrthdaro â Pholisïau ENV2 a TSM 10 y CDU. |
| Datblygu 0.08 hectar o dir drwy adeiladu un annedd | Gwrthod - Penderfyniad dirprwyedig | Cae Rhif 1400 yn Fferm Pentre Cwm, Ffordd Cwm, Dyserth, Y Rhyl | Gwrandawiad | 11/11/2004 | GWRTHODWYD | - | Ystyrir bod y safle ar ddiwedd rhes yn hytrach nag yn mewnlenwi. Effaith andwyol ar yr AHONE ac ymddangosiad Pentre Cwm. Yn gwrthdaro â Pholisïau HSG 5, ENV 2 a GEN 3 y CDU. |
| Datblygu tir at ddibenion preswyl a gosod tanc carthffosiaeth newydd | Gwrthod - Penderfyniad dirprwyedig | Tyddyn Isa, Ffordd Gefn, Llanarmon yn Iâl | Sylwadau ysgrifenedig | 18/11/2004 | GWRTHODWYD | - | Datblygiad y tu allan i ffiniau cyfanheddu'r AHONE. Nid mewnlenwi. Ni chyflwynwyd achos eithriad. Yn gwrthdaro â Pholisïau ENV 2 a GEN 4 y CDU. |
| Datblygu 0.19 hectar o dir drwy adeiladu un annedd (cais amlinellol) | Gwrthod - Penderfyniad dirprwyedig | 2a Ffordd Penrhwylfa, Prestatyn | Sylwadau ysgrifenedig | 15/09/2004 | GWRTHODWYD | | Byddai'n arwain at estyn datblygu tuag at yr ardal wledig yn y cyrion trefol. Ni chyflwynwyd achos eithriad. |
| Datblygu tir drwy osod 2 gaban pren (cais amlinellol) | Gwrthod - Penderfyniad dirprwyedig | Llangollen Motor Museum, Pentrefelin, Llangollen | Sylwadau ysgrifenedig | 16/08/2004 | GWRTHODWYD | | Byddai'n niweidio cymeriad yr AHONE ar safle glan afon. Felly'n gwrthdaro â Pholisi ENV 2 y CDU a'r meini prawf ym Mholisi TSM 9. |
| Datblygu tir drwy adeiladu annedd, addasiadau i'r ffordd fynediad bresennol i gerbydau a gosod tanc carthffosiaeth newydd (ceisiadau amlinellol) | Gwrthod - Penderfyniad y pwyllgor | Bryn Awel, Rhuthun | Sylwadau ysgrifenedig | 04/10/2004 | GWRTHODWYD | | Ymwthio i gefn gwlad drwy ddatblygu nad yw'n angenrheidiol. Yn gwrthdaro â Pholisïau Gen 4 a GEN 5 y CDU. Nid yw'n mewnlenwi felly'n gwrthdaro â Pholisi HSG 5. |
| Datblygu tir at ddibenion preswyl ac addasiadau i'r ffordd fynediad bresennol i gerbydau | Gwrthod - Penderfyniad y pwyllgor | Tir wrth ymyl Eglwys Sant Tysilio, Corwen | Gwrandawiad | 05/09/2004 | GWRTHODWYD | | Dim darpariaeth tai fforddiadwy felly'n gwrthdaro â Pholisi HSG 10 y CDU. Cefnogodd yr Arolygwr y gofyniad am 30% o dai fforddiadwy ar y safle hwn. |
| Datblygu tir drwy adeiladu annedd (cais amlinellol) | Gwrthod - Penderfyniad y pwyllgor | Ffordd Las, Mynydd Llech, Llanrhaeadr | Gwrandawiad | 20/08/2004 | GWRTHODWYD | | Dim grwp cydlynus o adeiladau felly'n gwrthdaro â Pholisi HSG 5 y CDU. Nid yw'n ddatblygiad cynaliadwy. |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Datblygu tir drwy adeiladu annedd, addasiadau i'r ffordd fynediad bresennol i gerbydau a gosod tanc carthffosiaeth newydd (ceisiadau amlinellol) | Gwrthod - Penderfyniad dirprwyedig | Tir rhwng Alyn View a Tyddyn Isa, Ffordd Llanarmon, Llanferres | Sylwadau ysgrifenedig | 19/10/2004 | GWRTHODWYD | | Nid yw'n cynrychioli bwlch bach mewn ffrynt barhaus felly'n gwrthdaro â Pholisïau HSG 5 a GEN 4 y CDU. Dim angen angenrheidiol am yr annedd dan Bolisi HSG 6. |
| Adeiladu annedd a llunio ffordd fynediad newydd i gerbydau | Gwrthod - Penderfyniad dirprwyedig | Tir wrth ymyl Marl Cottage, Ffordd Rhuallt, Cwm, Dyserth | Sylwadau ysgrifenedig | 04/10/2004 | CANIATAWYD | | Derbyniwyd yr annedd a adeiladwyd yn lle'r gwreiddiol gan fod y meini prawf ym Mholisi HSG 8 yn caniatáu eiddo adnewyddol mwy pan yw'r gwreiddiol o safon isel o ran dylunio ac ymddangosiad. Dyluniad derbyniol mewn AOHNE. |
| Amrywio amod Rhif 4 caniatâd cynllunio cyfeirnod 3/396/96/PF i ganiatáu storio carafanau dros y gaeaf ac aros dros nos rhwng 31 Hydref yn un flwyddyn a 1 Mawrth y flwyddyn ganlynol | Gwrthod - Penderfyniad dirprwyedig | Penddol Caravan Park, Ffordd yr Abaty, Llangollen | Gwrandawiad | 10/12/2004 | GWRTHODWYD | | Byddai presenoldeb carafanau yn ystod misoedd y gaeaf yn niwedio'r tirlun a'r AOHNE. Yn gwrthdaro â Pholisïau ENV 2 a TSM 12 y CDU. |
| Addasaiadau ac estyniad i 2 annedd i ffurfio 1 annedd | Gwrthod - Penderfyniad dirprwyedig | Ystrad Cottage, Llangollen | Gwrandawiad | 02/12/2004 | CANIATAWYD | | Ni fyddai'r cynigion yn groes i faint na chymeriad yr ardal ac felly byddai'n dderbyniol yn erbyn Polisïau HSG 12 ac ENV 2 y CDU. |
| Diwgio cynllun ar gyfer 23 annedd a dderbyniodd ganiatâd cynllunio dan gyfeirnod 03/2003/1340/PF yn ymwneud â chyfnewid 4 annedd | Caniatáu - Penderfyniad y pwyllgor | Tir i'r de o Greenacres, Fron Bache, Llangollen | Gwrandawiad | 17/12/2004 | CANIATAWYD | DYFARNWYD COSTAU | Effaith derbyniol ar gymeriad gweledol ac amwynder yr ardal leol. Dim gwrthdaro â pholisi yn y CDU na Chanllawiau Cynllunio Atodol. Nid yw'n ardal sensitif. Nid oedd y Cyngor wedi cyflwyno tystiolaeth sylweddol o blaid gwrthod. |
| Adeiladau 2 annedd sengl, creu ffordd fynediad newydd i gerbydau a gosod tanc carthffosiaeth. | Gwrthod - Penderfyniad dirprwyedig | Tir rhwng Glascoed a Chapel Ebeneser, Fforddlas, Llandyrnog | Gwrandawiad | 08/12/2004 | GWRTHODWYD | | Nid yw'r safle'n cynrychioli bwlch bach yn y ffrynt datblygedig. Effaith ar gymeriad gwledig yr ardal. Yn gwrthdaro â Pholisïau HSG 5 a GEN 4 y CDU. |

# Penderfyniadau wedi eu gwneud gan Bennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd o dan Pwerau Dirprwyedig 21ain Tachwedd 2004 - 31ain Rhagfyr 2004

## Eitem er gwybodaeth

**Mae hon yn rhestr o geisiadau lle gwnaed y penderfyniad eisoes dan bwerau dirprwyedig. Os ydych chi'n dymuno trafod y cais/penderfyniad, cysylltwch â'r Swyddog fu'n ymwneud â'r cais os gwelwch yn dda.**

## MATHAU O BENDERFYNIAD

| | |
|---|---|
| **CANIATÁU (GRANT)** | **- caniatáu caniatâd cynllunio** |
| **GWRTHOD (REFUSE)** | **- gwrthod pob math o gais** |
| **CYMERADWYO (APPROVE)** | **- cymeradwyo materion neu amod a neilltuwyd** |
| **CANIATÂD (CONSENT) -** | **caniatáu caniatâd adeilad rhestredig, ardal gadwraeth neu ganiatâd hysbyseb** |
| **BARNU (DEEMED)** | **- nid yw'n ofynnol cael caniatâd hysbyseb** |
| **DIM GWRTHWYNEBIAD gadwraeth (NO OBJ)** | **- dim gwrthwynebiad i waith ar goeden/coed mewn ardal** |
| **NID YW'N OFYNNOL (NOT REQ)** | **- nid yw'n ofynnol cael caniatâd ar gyfer y gwaith arfaethedig** |
| **PENDERFYNWYD (DETERMIN)** | **- penderfynwyd nad yw'n ofynnol cael cymeradwyaeth o flaen llaw neu'n cael ei ganiatáu pan benderfynir ar y cais (rhai gweithiau telecom a gwaith amaethyddol penodol)** |
| **DATBLYGIAD A GANIATEIR (P DEV)** | **- canfuwyd fod y cais yn ddatblygiad a ganiateir ar ôl derbyn y cais** |
| **TYNNWYD YN ÔL (WDN)** | **- tynnwyd y cais yn ôl gan yr ymgeisydd** |
| **ANNILYS (INVALID)** | **- canfuwyd fod y cais yn annilys** |
| **ARDYSTIO (CERTIFY)** | **- cyflwynwyd tystysgrif defnydd cyfreithlon** |
| **G ARDYSTIO (RCERTIFY)** | **- gwrthodwyd cyflwyno tystysgrif defnydd cyfreithiol** |

**Nid yw'r atodiad y cyfeiriwyd ato yn yr adroddiad ar gael yn Gymraeg ac mae hynny yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg y Cyngor**